

# Glas

Bwletin misol  
*Llên*  
natur  
Rhif 160  
Mehefin 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach, adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



**Crëyr Bach trwsiadus**  
*Little Egret looking dapper*  
Aberogwen, "The Spinnies"  
Steve Ransome, 11 Mawrth 2021

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia  
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**



(Rhif elusen: 1126027) **Cymdeithas**  
*Edward Llwyd*



# Lladd tyrchodyrchod daear - Dadlauon eitha ffyrnig...

Fe ysgogodd lluniau Iwan Williams o dyrchod yn crogi o haearnau gât fferm gryn dipyn o **ddadlau eitha ffyrnig** a dweud y gwir (derbynwyd cwyn am ddangos a thrafod y pwnc o gwbl!). Ond mae'n debyg mai'r postiad hwn ddennodd yr ymateb mwyaf, a mwyaf tanllyd a dderbynwyd erioed ar Grŵp Cymuned Llên Natur.



■■■ Dyma sut y datblygodd y drafodaeth yn ôl y pwyntiau mwyaf sylweddol (hepgorwyd y rhai a fynegodd yn emosiynol yn unig ond mae'r cwbl i'w weld try ddilyn y ddolen las):


## ac am fwy o sylwadau

### Dyma ddetholiad o'r sylwadau

- ❖ Mae hyn yn ofnadwy i'w weld. Pam bod Admins y grŵp yn caniatáu i'r llun yma fod fan hyn? **JW**
- ❖ Llun o greulondeb ydy hyn ac mae yn torri rheol 5 y grŵp yma.
- ❖ Dydi'r postiad hwn ddim yn tramgwyddo unrhyw reol Cymuned Llên Natur. Gall fod rhai o'r ymatebion yn anghwrtais i'r postiwr sydd ond wedi amlygu rhywbeth yn ei gynefin. Mae'n dangos beth sydd yn mynd ymlaen yng nghefn gwlad. Mater i ni i gyd yw barnu ar hyn - ac yn amlwg mae eich barn yn glir. **Llên Natur**
- ❖ Dim tyrchod yn lwerddon – oes gwahaniaeth yng ngraddfa *listeriosis* yno? Ydi *listeriosis* yn fwy cyffredin rwan yn oes y silwair nag oedd o dan drefn y cynhaeaf gwair? Faint o broblem ydio? **Llên Natur**
- ❖ Pan fydd pridd o dwmpathau'r tyrchod daear yn cael ei gynnwys mewn silwair gall bacteria (*Listeria monocytogenes*) achosi "*listeriosis*" mewn gwartheg a defaid. Ymddengys ei bod yn draddodiadol i'r dynion sy'n dal tyrchod eu rhoi ar ffensys er mwyn dangos bod y ffarmwr sy'n talu wedi cael gwerth arian. Gwelais lawer o achosion o *listeriosis* pan oeddwn yn gweithio yn y labordy yn Aberystwyth. **JW**
- ❖ Mae'n debyg er nad yw'n hawdd cymharu data dros y blynyddoedd oherwydd bod dulliau monitro wedi newid. Rhaid cofio bod problemau eraill yn gysylltiedig â gwair e.e. *Aspergillosis*. Efallai mai erthylu mewn defaid yw'r broblem a achosi yn amlaf gan *Listeria*. Byddai rhaid imi edrych am ddata ynglŷn â'r nifer o ddigwyddiadau ond petai'n digwydd gall colledion ar y fferm fod yn sylweddol. **JW**
- ❖ Dwi'n deall fod ffermwyr yn gorfod osgoi afiechyd yn eu hanifeiliaid. Ond does dim angen i ni eu lladd siawns? Angen ail ystyried twmpath pridd yn yr ardd fel 'dan ni angen ailfeddwl beth sy'n chwyn a pheidio cael obsesiwn efo torri gwair. Clywed diwrnod o'r blaen bod rhyw glwb *croquet* di cael rhywun i ddifa tyrchod! Tydy hynna ddim gwell na hela llwynogod am hwyl. **ALR**
- ❖ ... mae'n amser dysgu byw hefo bywyd gwyllt **CB**
- ❖ Mae'r ffermwr yn talu fesul pen am bob twrch sydd yn cael ei ddal; hyn yn profi bod y daliwr wedi dal, rheswm dros ddifa ydi *listeria*, afiechyd creulon iawn sydd yn lladd defaid a gwartheg oherwydd bod twmpathau pridd yn mynd i'r silwair a gwair, tydy bob twrch ddim yn cael ei ddifa. Dim ond ychydig sydd ar y caeau silwair, sydd yn llai na chwarter tir fferm. **GU**
- ❖ Dwi ddim yn cyfiawnhau hyn o gwbl, dwi wrth fy modd efo tyrchod, ond hen arferiad ydi rhoi creaduriaid fel tyrchod, wencioid, brain ac yn y blaen mewn rhesi fel hyn. Mae fel '*gibet*' y cipar ers talwm, fel bod perchenog y tir yn gallu gweld bod y cipar/gwas yn gwneud ei waith yn iawn.

- ❖ Pobol yn honi diddordeb mewn natur gwlad yn cyfiawnhau hyn. **CB**
- ❖ Ers talwm, mi fasa adar ysglyfaethus, cathod gwyllt, ffwilbartod a'r bele goed wedi bod yn rhan o'r '*gibet*' hefyd. **IW**
- ❖ Maen nhw yn rhoi nhw i fyny i ddangos i'r ffarmwr faint ma nhw 'di ladd er mwyn cael eu talu fesul twrch. Hen draddodiad sydd ddim yn dderbyniol y dyddiau hyn. **Dewi Prysor**
- ❖ 50c y twrch oedd lladdwr yn gael erstalwm, pan o'n i'n blentyn. Lladd nhw'n hunain oeddau ni. Sodlu, trapio a saethu efo 12 bôr. **Dewi Prysor**
- ❖ Faint oedd yna i gyd? Dwi'n cyfri 35... i gyd yn yr un cyflwr, yn dangos poblogaeth dda? (Dwi ddim am foesoli) **Llên Natur**
- ❖ Nid yn unig i'r tir y mae nhw yn creu niwed mae yn llawer mwy na hynny, os yw pridd yn cymysgu â'r cnwd silwair yna mae yn gallu achosi '*Listeria*' sydd yn beryglus iawn i ddefaid, a sydd yn gallu achosi eu marwolaeth. Mae'r defaid yn ddibynol ar y silwair yn borthiant tros fisoedd y gaeaf, nid mater o '*aesthetics*' yn unig ydy gwaredu tyrchod daear. **Heddys Jones**
- ❖ Sut basech chi'n diffinio 'pla'? **Llên Natur**
- ❖ Dwi'n gwbod bod nhw'n bla. Ond yr argol fawr mae hyn yn erchyll. **Non Richards**
- ❖ ... pla 'di pla. Mae'n rhaid rheoli POB rhiwogaeth neu fydd dim cefn gwlad hardd i bawb fwynhau, fydd dim llaeth na chynnyrch llaeth, fydd dim llysiau na ffrwythau, dim chynnyrch llysieuol, fydd dim cig, fydd dim coed - dim papur, dim tai! Fydd dim gwlan i gael dillad na charpedi, fydd dim cymunedau a phentrefi cefn gwlad, bydd dim gwaith Nac Arian, dim ardaloedd neis i ymwelwyr ddod i, nid ffermwyr yn unig yw y rhai sydd yn greulon, toes dim yn fwy creulon na natur! Ysgwni... **Heddys Jones**
- ❖ Rhyfedd, ro'n i di bod yn sgwrsio ar yr edefyn hwn pnawn ma, cyn mynd i fynwnt Pencefn, Traws i roi blodau ar fedd Mam ar ei blwydd. A geshwch be? Mae na dwrch yn tyrchu yn y fynwnt, o fewn llathen o fedd Mam, a modfeddi o feddi eraill. Fysa Mam yn chwerrthin! **Dewi Prysor**
- ❖ Pam fod y deddfau gwarchod bywyd gwyllt wedi pashio'r twrch daear heibio i raddau helaeth? - MAE'r defnydd o *strychnine* wedi cael ei anghyfreithlonni gyda llaw - welé'r linc i hen ddyddiaduron uchod. Un rheswm efallai yw nad oes gostyngiad amlwg wedi bod yn ei niferoedd. Rheswm arall efallai yw gelyniaeth garddwyr taclus dosbarth canol tuag atynt, a'r lobi amaethyddol. Fasech chi'n cytuno (a heb fynd yn stêm emosiynol!!) **Llên Natur**
- ❖ Mae'r drafodaeth yma ar dyrchod daear yn dangos cymaint o agendor dealltwriaeth sydd rhwng ffermwyr a'r boblogaeth. Mae'r anwybodaeth yn syfrdannol ac yn tanseilio hyder ffermwyr mewn rhai sydd yn cyfri eu hunain yn naturiaethwyr! Dwi fel ffarmwr isio talu £10 am bob twrch ma tyrchwr yn ddal, ond dwi chwaith ddim isio gweld dafad yn dioddef *listeriosis*. Tasach chi yn torri gwair efo pladur, mi fydda tarro 1 tocyn twrch yn mynd ac awch y bladur, a mi fydda isio ail hogi bob tro. Torri gyda injian wair yr un modd. Llai o broblem efo peirianna modern, ond mae'r pridd yn cael ei gymysgu efo'r cnwd. Gwers i ni ffermwyr, gofynwch i'r dyn dal tyrchod beidio â hongian y tyrchod, fel yr arfer traddodiadol, ond eu rhoi mewn bag (plastic) a dod â nhw i'r iard, i'w cyfri, a'i gwaredu rhag styrbio pobol. **Richard Parry Hughes**
- ❖ Mae'r twrch a'r tyrchwr (ar wahanol wedd) wedi bod o gwmpas ers erioed ac mae'r twrch yn parhau'n styfnig o niferus yn y tir. Ydi ymdrechion y tyrchwr yn cael effaith ar boblogaeth y twrch o gwbl, neu am fwy na ychydig wythnosau. Mae lladd twrch yn creu gwagle i dwrch arall gymryd ei le, a hynny o bosib yn sydyn iawn. Mae coedwigoedd yn llawn tyrchod (prif fwyd y dylluan frech) yn barod i ail gyflenwi, er nad ydi'r tomenni ddim yn amlwg mewn coedwig. **Llên Natur**

## Paill, neithdar a chyfoeth dant y llew



1 Cacynen dinllwyd • *Bombus terrestris* • Ann James • Ebrill 2020

2 Gwennynbryf • *Bombylius* • Angharad Jones • Caerffili • Ebrill 2021

3 Gwennyn mêl • *Apis apifera* • Angharad Jones • Caerffili • Ebrill 2021

4 Chwilen goesdew • *Oedemera femoralis* • Mair Evans • Pandy Tudur • Gorffennaf 2020

5 Pryfed hofren • *Heliophyllus* • *Eristalis dipteron* • Pontillyfni • Medi 2018

6 Pryf hofren • *Syrphus* • Pontillyfni • Medi 2018

7 Pryf hofren • *Melanostoma scalare* • Gill Brown • Llanrug • Ebrill 2021

8 Lindys teigr yr ardd • *Arctia caja* • Duncan Brown • Mai 2013

9 Gwennyn duriol lwydilas • *Andrena cineraria* • Angharad Jones • Caerffili • 19 Ebrill

10 Mantell dramor • *Vanessa cardui* • Elfyn Lewis • Porthmadog • Mai 2018

Yn ddiweddar dangosodd defnyddwyr Llên Natur cryn ddiddordeb ym mhob agwedd ar flodau dant y llew (prydfwrthwch, llên gwerin, bwyd a diod, bwyd i fywyd gwyllt). Dyma ganolbwyntio yma ar y blodyn fel ffynhonnell paill, neithdar a bwyd i fintai o wahanol bryfed dros y flwyddyn fel mae'r gronfa o'ch lluniau chi yn ei ddangos.

Megis dechrau yw hyn - dewch â mwyafrwyd dros y tymor sydd i ddod.

Clwstwr o flodigion bychan, fel holl aelodau teulu'r *Compositae*, yw 'blodyn' dant y llew mewn difri, ond mae'n gyfleus serch hynny i gyfeirio at y rosêt melyn trawiadol fel 'y blodyn'. Mae'n debyg bod blodau dant y llew yn gwneud mwy o gymwynas i bryfed nag yw pryfed i ddant y llew! Mae dau reswm am hyn; 1. mae'r dant y llew yn gallu atgennedlu trwy hâd ond HEB o angenrheidrwydd gael ei groes-beillionni, a 2. dydi'r pryfed mawr fel y cacwn a'r pryfed hofrol ddim yn gorfod 'claddu' eu hunain dros eu pennau yn y blodyn i gael eu dogn o fwyd ac felly mae'n nhw'n llai tebyg o hel dogn o baill i beillionni blodyn arall.

### Dyma'r ffyrdd mae pryfed yn cael mantais o ddant y llew

Y rhif mew bracedi yw y nifer o luniau ar ddant y llew yn Cymuned ac Oriol Llên Natur

**Cacwn *Bombus*, cacynen dinllwyd [3]** : Mae'n debyg bod blodau dant y llew yn addas iawn i gacwn â thafodau byrion lle nad oes angen turio'n bell i fewn i flodyn. Mae'r gacynen dinllwyd yn un o'r rhain ac mae ymddangosiad cynnar blodau dant y llew yn caniatâu iddynt ennill bwyd yn gynnar yn y flwyddyn. Mae rhain gyda llaw yn gallu 'dwyn' neithdar 'trwy'r drws cefn' ym mon rhai blodau megis bysedd y cwn yn hwyrach yn y flwyddyn, blodau sydd ddim ond ar gael fel arall i gacwn tafodau hirion.

**Gwennynbryfed *Bombylius* [1]** : Dydi'r gwennynbryf ddim hyd yn oed yn gorfod cyffwrdd y blodyn o gwbl wrth iddo hofren o'i flaen tra'n stilio gyda'i dafod hir iawn i berfedd unrhyw flodyn.

**Ymwelwyr achlysurol** : Gwennyn mêl [2], gloynnod byw (mantell dramor) [1], *diptera* anhysbys (pryfed dwyadeiniog) [1], gwennyn turiol (gwennynen duriol lwydilas *Andrena cineraria*) - Ymwelwyr achlysurol yw rhain â'r ddant y llew, yn rhan o fwydlen llawnach.

**Chwilod (chwilenn goesdew, ben.) [1]** : Rhyw drampio'n ddi-feind trwy'r blodigion mae chwilod mewn difri wrth bori'r paill neu'r neithdar sy'n llechu ynddynt.

**Pryfed hofrol [4]** : (*Heliophyllus*, *Syrphus*, *Eristalis*, *Melanostoma*) - Mae'r pryfed hofrol yn arbenigo naill ai ar baill neu neithdar, Mae *Eristalis* yn ymborthi ar neithdar a *Melanostoma* ar baill. Dywedir [Dant y Llew, Llanfor] bod eu 'tafodau' (*labia*) wedi eu haddasu yn arbennig i'r naill neu'r llall (*The Natural History of Hoverflies*. 2011 Rotheray GE & Gilbert F).


**Lindys gwyfynod (teigr yr ardd) [1]**: Mae petalau'r blodigion eu hunain yn hollol fwytdwy hefyd i rai pryfed.

## Gwanwyn 2021

Ebrill eleni (2021) oedd yr Ebrill mwyaf heulog a sychaf yn fy nghofnod yn Waunfawr a ddechreuodd yn 1994. Roedd hefyd y 3ydd oeraf (cyfartaledd dyddiol 7.2°C (y rhai oeraf oedd 2001 a 2013... yr isaf o bell, sef 2.2°C (3.3°C oedd cyf. Tn am 2012 a 2013). Cyfartaledd Tn (isafswm dyddiol Ebrill) oedd yndod i mi gofnodi barrug-gwair ar 20 o nosweithiau'r mis. Roedd y mis hefyd y mwyaf eiraog yn y gyfres gydag eira ar 6 niwrnod rhwng y 4<sup>ydd</sup> a'r 12<sup>ed</sup>, yn cyfrannu (fel eira tawdd) at tua hanner swm y 'glawiad'. Torrwyd record tymheredd arall, sef y gwahaniaeth rhwng cyfartaledd Tx (cyf. uchafswm) o 10.0°C. Y gwahaniaeth mwyaf cyn hynny oedd 9.5°C yn 2007. Pwysedd awyr cyfartalog y mis oedd 1024.7mb, yr uchaf i Ebrill yn y gyfres - y nesaf i lawr oedd 1024.6 yn 1997.

Addasiad o adroddiad Huw H Jones

DATBLYGIAD GWANWYN HYD EBRILL 2021 (TsumC) o'i gymharu â 2001 (hwyrach), 2007 (cynharaf), 2020 (gwanwyn Covid) a'r cyfartaledd 1994-2021



## Tasu a Gwneud Rhaffau

Oddiwrth Laura Roberts, Ystum, Rhoshirwaun

Cefais y straeon hyn gan fy mam, Martha Williams, Avondale, Tudweiliog.

■■■ 'Rwyf wedi clywed ganddi lawer o atgofion am fywyd ffermio yn y pumdegau pan oedd yn byw gyda'i rhieni ar fferm Pengallt, Tudweiliog.

Yn ddiweddar clywais hanes am ei thad – fy nhaid – Gryffudd Williams a'i waith yn darparu at gau pen y das yn y gadlas ar ôl y cynhaeaf. 'Roedd angen casglu brwyn i wneud to ar y das rhag y glawogydd a gwneud rhaffau gwellt i ddal y brwyn rhag gwyntoedd y gaeaf. Byddai yn eistedd ar gadair yn llawborthi gwellt fesul llawiad i wneud rhaff, hefyd yn gwlychu ei ddwylo yn aml o bwced o ddŵr wrth ei ochr, a byddai un neu ddau o'r plant yn cordeddu y rhaff gyda teclyn tebyg i'r lluniad isod, yr holl amser yn cerdded yn ôl wysg eu cefn tan byddai tua 25 – 30 troedfedd o raff wedi ei gwneud.



Teclyn Cordeddu

Byddai yn cymeryd y rhaff yn gyfan a'i rowlio yn belen rhag iddi ddad-gordeddu. 'Roedd angen rhaff dew a

hir "y rhaff coryn" i fynd ar hyd pen y das – a rhaff bob ryw ddwy droedfedd ar hyd y das o un ochr i'r llall dros y coryn. Byddai angen gwneud dwsinau o briciau [o goed helyg] i ddal y rhaffau ac i ddal y tynder yn y rhaffau fel oedd y gwaith yn cael ei gario ymlaen. Fe fyddai rhaffau teneuach yn cysylltu y prif raffau ac yn cael eu gosod a'u tynhau mewn patrwm taclus [yn aml i arddangos crefftwaith y taswr!] Byddai fy nhaid yn cael ei wahodd i fynd i dasu ar rai o'r ffermydd cyfagos.

Hefyd byddai yn beirniadu gwneud rhaffau yn Sioe Tudweiliog oedd ar un adeg yn iard ysgol Tudweiliog.



Tasu



Byddai y rhaffwyr yn eistedd o flaen yr ysgol a'r trowyr yn mynd wysg eu cefn i lawr yr iard.

Lluniau isod o Gryffudd Williams wrth ei waith yn tasu. Byddai yn defnyddio gwellau i dorri bargod y das yn daclus. Byddai'r das wair yn parhau drwy'r gaeaf yn borthiant i'r anifeiliaid i gyd ac 'roedd arogl da arno meddai fy mam.

■■■ Yn ddyddiol ar adeg porthi'r anifeiliaid fe ddefnyddid cyllell arbennig - "cyllell wair" - llafn tua dwy droedfedd o hyd - i dorri "treglan" tua llathen sgwar o wair o'r das. 'Roedd "treglan" o faint a phwysedd fel ei bod yn bosibl ei chario gyda picwach o'r das i'r beudai neu i le bynnag arall y cedwid yr anifeiliaid. Byddai fy nhaid yn gwneud gorchydd allan o sachau i warchod ei ysgwyddau rhag glaw [ a rhag hadau gwair i lawr y cefn !! ]

Isod gweler luniau o fy modryb Mari, a'i dau frawd Wil ac Ifan, fy ewyrthod, fy nhaid [ a Dic y ceffyl ] yn cario gwair gyda picwach a chribin i llunau y cae. Byddent hefyd yn defnyddio "telyn" i hel pob blewyn. 'Roedd telyn yn fwy na chribin gyda pigau haearn, nid rhai pren. i


*Mae'r lluniau "Cario gwair i'r drol" a "Mari a'r ceffyl" wedi cael eu tynnu gan ymwelwr - John Jameson o Leyland, Lancashire - oedd yn aros mewn carafan yn Pengallt yn 1948.*



Mari a'r ceffyl

Ewch i rifyn 157 i weld mwy am wneud rhaffau Bwletin 157 tudalen 2-3

Mae erthygl Laura hefyd i'w gweld yn rhifyn Calan Mai Fferm a Thyddyn



Cario gwair i'r drol

Cofiwch bod y geiriau piws yn arwain at fwy o wybodaeth

Dewiswch Cliciwch!  
**Gwefan**  
Llen natur



## Ymwelydd bore



### Y gnoCELL fraith

Llun Bruce Lane

Llun bach domestig hyfryd yn ei ffordd ei hun. Er yr olwg hen fashiwn sydd arno, mae'n perthyn yn llwyr i'r 21G (bwydo'r adar, peli saim, cnoCELL fraith, clychau'r gog Sbaen ac nid yr un cynhenid, ac efallai'r cwlthfar cennin Pedr - popeth na fysa ni wedi gweld o gwbl fawr cyn troad y ganrif!).

Roedd bwydo adar yn arferiad llawer llai cyffredin hanner canrif yn ôl - mae'n ddiwydiant miliynnau o bunnoedd erbyn hyn. Rhan o'r diwydiant hwnnw yw'r cynnyrch penodol i fwydo'r farchnad - hadau nijer, peli saim (crystiau bara oedd hi stalwm!); y gnoCELL fraith wedi cynyddu ar draul y gnoCELL werdd ac wedi dysgu manteisio ar y 'bwrdd' adar; clychau gog Sbaen yn gyflym tansilio'r math cynhenid, 'diolch' i dwf y canolfannau garddio sy'n mewnfario rhywogaethau estron. Dyna ddiwydiant arall sydd wedi tyfu ar ei ganfed yn y degawdau diwethaf, ynghyd a'r holl gwltifarau (megis y genhinen Bedr) sy'n bodlonni awch y garddwyr sydd â chyfran cynyddol o'u hincwm i wario ynddynt.

### Sylwadau a chyngor:

Mae nhw yn llâdd adar bach. Gobeithio gwneith e ddim cael gafael yn y bocsys llawn.

Eluned Stalham

Dyna pam mae rhai yn rhoi plât metal rownd y twll, er mwyn atal y cnoCELL.

Hefin Richards

CnoCELL y Coed yn glanio ar y bocsys nythu yn fy ngardd heddiw ac wedi trio mynd i fewn i un gwag. Adar y to yn nythu mewn un a Titw Tomos yn y llall. Unrhyw sylwadau plis?

Del D'Aubray - 3 Mai 2021

Cliciwch ar y dolenni i weld pa fath o gyngor mae **The Spruce** a'r **RSPB** yn rhoi.

## Y gôg eleni



### Y Gog

Brenig bore heddiw

7 Mai 2021

Cyfraniad arbennig gan **Dys Griffiths**

- Nid oes llawer ohonom ni wedi gweld y gog yn agos.



Dys Griffiths



Grŵp  
Llên Natur  
ar Facebook




## Dirgelwch Maen Grisial Prenteg

Sonwyd yn y **Bwletin diwethaf** am ddyddiadur rhyfeddol Owen Edwards, Fron Olau, Prenteg, ac ymchwil Math Williams i hanes y pen carw a gafodd Edwards ar forfa'r Traeth Mawr yn 1820. Wel dyma Math eto, a'i ymchwil i hanes chwarel y Maen Grisial ar dir Fron Olau o'r un dyddiadur.

■ ■ ■ Mae Owen Edwards yn sôn sawl tro am y 'twll Maen Grisial'. Dyma'r cofnodion: 'maen grisial'. Er enghraifft, cofnododd;

"13 Gorffennaf 1820, Fron Olau, Penmorfa Dydd Iau... Will Pant hir yn twll Maengrisial..." (Chwarel ar ei dir ger Fron Olau yw 'twll Maengrisial).

Pam tybed fod Owen Edwards yn cymryd y fath ddiddordeb yn y maen grisial ym 1820? Ai ymateb i



ymweliad gan James Sowerby a ddisgrifiodd fwynau o'r safle yn ei lyfr "British Mineralogy" 1809? Mae'n ymddangos felly; "Y Mesurwr Tir yma efo'r Map yn edrych a oedd yn ei le. Minau yn mynd i ddangos twll y maengrisial iddo".

Roedd Owen Edwards yn amlwg wedi gweld cyfle busnes a chofnododd ddwywaith o fewn yr un wythnos; "Thomas David yn y graig yn codi maen grisial" ac "Dic yn mynd a Maen grisial i fynd i Mrs. Williams Dolgelley".


Ni wyddom eto p'un ai gweision neu ryw fath o gontractwyr oedd Thomas David a Will Pant Hir, na pham roedd Dic, ei was mae'n debyg, yn mynd i Ddolgellau efo'r grisial. Tybed pwy oedd y 'cwsmeriaid'?

Mae'r cofnod gan Owen Edwards yn dweud; "llythyr oddiwrth Ellis Jones Dolgelley eisia maengrisial" a hyn yn awgrymu masnach. Mae'n siwr y bydd y stori'n datblygu wrth i ni godi mwy o gofnodion Twll Maen Grisial o'r dyddiadur.

■ ■ ■ Beth a wyddom ni am y safle a beth yw 'maen grisial'? Dyma ganlyniad ychydig ymchwil...

Mae lleoliad hen chwarel Twll Maen Grisial ar lethr serth â chlogwyni uwchben y ffordd fawr, yr A498, tua 400m i'r de o Brenteg. Nid yw'n safle hygyrch na diogel heddiw. O Dwll Maen Grisial y cloddiwyd crisialau cwarts prismaig mawr tryloyw a ddaeth yn enwog ymysg casglwyr crisialau yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Cofiwch fod casglu mwynau ar gyfer eu harddangos yn dipyn o ffasiwn ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig ymysg pobl oedd yn ymddiddori yng ngwyddoniaeth newydd y dydd, sef daeareg. Cloddiwyd crisialau sawl mwyn arall yno hefyd, ac yn ddiweddarach daeth Twll Maen Grisial yn enwocach fyth oherwydd ambell un mwynau eraill hyn. Mae pymtheg mwyn gwahanol wedi eu cofnodi yn y chwarel, ac mae sawl un yn anghyffredin. Dyma'r rhestr: albit, anatés, brookit, calsit, siamosit, fflworapatit, galena, goetit, halloysit, ilemmit, monazit-(Ce), pyrit, cwarts, rwtl a titanit. Am enwau! Mae'n bosib y bydd rhai ohonoch yn



adnabod ambell i enw megis galena (PbS, mwyn plwm oedd yn gyffredin yn sawl ardal yng Nghymru); pyrit (FeS<sub>2</sub>, mwyn haearn cyffredin ymhobman ac a adwaenid yn "aur y ffŵl"); cwarts (SiO<sub>2</sub>, fe'i gwelwn fel talpiau gwyn ar ben ambell wal mewn gardd, fel tywod ar draeth, a thywodfeini); a calsit (CaCO<sub>3</sub>, cynhwysyn calchfeini). Mae manylion am y mwynau i'w darllen yma: **'mwynau'** Ond oherwydd mwynau titaniwm deuocsid y daeth Twll Maen Grisial yn enwog. Pum ffurf crisialog sydd i ditiwm deuocsid (TiO<sub>2</sub>), ac mae tri o'r rhain sef brookit, anatés a rwtl i'w canfod yn Nhwl Maen Grisial. Disgrifiwyd a diffiniwyd brookit am y tro cyntaf erioed ym 1825 (Lévy, M., 1825. *An account of a new mineral Annals of Philosophy*, 9, 140-142); a cyhoeddwyd lleoliad Twll Maen Grisial fel tarddle brookit ym 1838 (Sowerby, G.B., 1838 *Locality for brookite. Annals and Magazine of Natural History*, series 2, 2, 293). Ystyrid bod brookit ac anatés yn anghyffredin o ran dosbarthiad, rhicyn yn uwch na "prin". Cofnodwyd brookit o naw lleoliad yng Nghymru yn unig. Mae gan Amgueddfa Cymru gasgliad digon rhyfeddol o fwynau o Gymru. Mae lluniau a gwybodaeth ar eu gwefan; ac yn eu plith brookit o Dwll Maen Grisial: **brookite** ac **Mwynau a ddarganfuwyd gyntaf yng Nghymru.**

■ ■ ■ **Beth sy'n rheoli dosbarthiad y mwynau hyn?** Yn gyffredinol, mae crisialau i'w gweld mewn gwythiennau sy'n torri ar draws gwelyau o graig. Ffurfiwyd y gwythiennau wrth i grisialau dyfu yng ngheudod bregion



*Inky-blue tabular anatase crystal, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. Photo D.I. Green, © National Museum of Wales.*

sy'n agor wrth i greigiau gracio a malu yn ystod cyfnod o anffurfiad a metamorffeg; a hynny'n ddwfn o dan wyneb y ddaear. Fel arfer, cwarts gwyn neu galsit yw'r unig fwynau yn y gwythiennau ond, pan fyddai crisialau o fwynau meteleg gwahanol yn cael eu darganfod, byddai mwynwyr a chasglwyr crisialau yn dod i'w cloddio a'u dihybyddu.

Roedd Twll Maen Grisial yn dilyn gwythien llawn crisialau a oedd yn torri ar draws mewnwthiad igneaidd o ddolerit. Tafell o fagma tawdd a oedd wedi ymwithio rhwng gwelyau o gerrig silt llechog, ac wedi caledu yno fel craig yw'r dolerit. Cerrig gwaddodol o'r cyfnod Ordoficaidd, tua 450 miliwn o flynyddoedd oed, yw'r cerrig silt; ac mae'r dolerit ychydig iau. Mae sawl ymwithiad igneaidd dolerit llawer mwy o faint ac o'r un cyfnod yn ffurfio clogwyni yn yr ardal; er enghraifft, Allt Wen a Craig y Castell tu ôl i Dremadog, a Chreigiau Pant Ifan a Bwlch y Moch gerllaw. Gallwch ddarllen am wythiennau crisialog yma:

[gwythiennau crisialog.](#)

**A dyma un o'r crisialau cwarts arbennig y bu casglwyr yn ei chwennych...**  
*Prismatic quartz crystal 6 cm tall from Mynydd Drws-y-coed, Central Snowdonia, Gwynedd. Specimen NMW 83.41G.M.2043. National Museum of Wales Collection, ex R.J. King Collection. Photo M.P. Cooper, © National Museum of Wales.*



## Lliwiau arwydd cyfnod Cofid 19



*Enfys am 3.10 pnawn ma yn Rhosfawr, Pwllheli*

*Rosina Rees Jones*

Dyma ddadansoddiad fanwl y meteorolegydd Huw Jones:

*"A rainbow is only visible when the sun is at an angle of 42 degrees or less above the horizon.*

*That is why a rainbow is seen so high in the sky at sunrise or sunset when the sun is only a few degrees above the horizon.*

*Later on, in the day, as the sun rises higher in the sky, the rainbow appears lower in the sky.*

*In the winter months the sun remains low in the sky all day, so a rainbow can be seen any time of the day in winter.*

*But now, in April the sun at midday is 48 degrees above the horizon, so a rainbow could not be seen at midday, it's below the horizon.*

*However, by 3pm, when the Pwllheli photo was taken, the sun has come down to 40 degrees above the horizon, so just the upper part of the rainbow can be seen.*

*Remember that a rainbow is only visible when the sun is shining down on the observer from behind.*

*If the shower had occurred, say at 2pm, no rainbow could be seen, as the sun would have been too high.*

*If the shower had occurred, say at 4pm, the rainbow would have been higher in the sky, as the sun gets lower."*

**Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!**




**Cysylltwch gyda ni:**

**[llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)**

**Dewiswch Cliciwch!**  
**Gwefan**

**Llên natur**



Y Tywyddiadur Y Bywiadur **Cyhoeddiadau** Yr Oriol Pytiau Fideo Llyfrgell Llais Mapiau

**1** Ceiliog hefo corff du  
Adenydd hir, miniog

Siâp cryman gwyn ar ei fron  
lâr yn fwy brown



Dau hen dyrchwr o Llyn



**4** Ceiliog — cefn llwydlas

Bron a bol oren golau  
Tan adain lwyd olau




**2** Aderyn bywiog

Stribynnau gwyn ar adenydd  
Cynffon fforchiog

Pig llwyd  
Bron y ceiliog yn goch




**5** Ceiliog hefo pen melyn llachar

Corff hir  
Wyneb main

Rhesen oren frown ar draws y fron  
Cynffon hir




**3** Corhedydd bach swil

Bron hufen  
Bol gwyn hefo

Coesau oren-frown llachar  
llinellau tywyll




**6** Aderyn bychan talsyth

lâr yn fwy brown  
Gwddf — ochrau gwyn

Cynffon fer




Enw'r Aderyn	Pa Rif?	Pwynt
<i>Clochdar y cerrig</i>	_____	20
<i>Corhedydd y waun</i>	_____	30
<i>Bras melyn</i>	_____	25

Enw'r Aderyn	Pa Rif?	Pwynt
<i>Mwyalchen y mynydd</i>	_____	30
<i>Llinos</i>	_____	15
<i>Tinwen y garn</i>	_____	35